

SHEDS TIMES

Cylchlythyr Siediau Dynion

rhifyn 08 | Chwef



Summit Good?

Hau salad a chylchdroi
cnydau.

Canu, Siediau a Dynion

Siediau Dynion, yr Opera

Vic Brown

Canfod perthyn mewn
Sied Dynion



Croeso Siedwyr!

Rwy'n falch ein bod ni yn Siediau Dynion Cymru yn parhau i fod yma i'ch cynorthwyo chi a'ch siediau. Diolch i gymorth gan Lywodraeth Cymru, Sefydliad Waterloo a Sefydliad Moondance, mae'r tîm yr ydych wedi dod i'w adnabod dros y blynyddoedd yn parhau.

Ein themâu mawr eleni yw cyfathrebu, cysylltiadau a llesiant. Rydym yn hoffi clywed gennych, ac rydym wedi cael llawer o syniadau a chynigion o gymorth – byddwn yn rhoi'r awgrymiadau hyn ar waith.

Mae ein grŵp cyfeirio Siediau Dynion Cymru newydd yn gyfle i ni glywed yn uniongyrchol gennych, ac i ni eich diweddarau ynghylch ein gweithgareddau.



Mae Arweinwyr Siediau yn gwneud gwaith gwych yn rhedeg eu siediau. Maent hefyd yn treulio amser yn trosglwyddo gwybodaeth ar ein rhan. Rydym yn awyddus i leihau'r baich a gallu cysylltu â chi'n uniongyrchol pan fydd yna rywbeth yr hoffem ei rannu â chi. Gallai hyn ddigwydd pan fyddwn yn cyhoeddi ein cylchlythyrau, y rhaglen o weithgareddau'r Ystafell Zoom a'r hyn sy'n digwydd ym myd ehangach 'siediau dynion'.

Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn gwahodd pawb i ymuno â'n rhestr cysylltiadau. Byddwn hyd yn oed yn anfon pecyn hyrwyddo Siediau Dynion Cymru atoch i ddiolch i chi am ymuno ac am fod yn rhan o Siediau Dynion yng Nghymru.

Rydw i, fel chithau, yn edrych ymlaen at yr adeg y gallwn oll fod yn ein siediau, a hynny yn gorfforol ond, tan hynny, cadwch yn ddiogel.



Newyddion y Siediau



Mae'r dynion yn Amlwch wedi creu planwyr i Westy Trecastell, gyda chymorth gan gronfa gymunedol bragdy Carling/Robinsons.



Ym mis Chwefror daethom ynghyd gyda nifer o siediau eraill i weld beth oedd eu siediau yn ei olygu iddynt, ac i weld sut olwg sydd ar y dyfodol o ran siediau Cymru.



Byddwn yn siarad â rhagor o siediau yn ystod y misoedd nesaf ac yn rhoi adborth i chi.

2020 i Summit Good

Dyma giplun o'n taith yn ystod 2020!

Yn amlwg roedd yn gychwyn torcalonnus i'r flwyddyn, a'r cyfyngiadau yn ein rhwystro rhag cyfarfod, ond fe drodd yn flwyddyn hyfryd i'n sied, a hynny yng nghanol storm a oedd fel petai'n dal i dyfu! Mae'n teimlo fel bod yna lawer o newidiadau yn digwydd ledled y blaned ar hyn o bryd; pwy a wŷr beth fydd yn aros amdanom y flwyddyn nesaf!

Byddwn yn parhau i obeithio am y gorau, ac ar hyn o bryd rydym yn mwynhau atgofion o'r radd flaenaf o'n ychydig fisoedd cyntaf yn cyfarfod dros ginio yn Abertawe!



Roedd 2020 yn "Flwyddyn y Sglodion Coed"..... i fechygyn Summit Good yn Nyfnant! Ar ôl cyfres o brofi gwahanol weithgareddau atyniadol a diddorol, o arbed hadau organig a hau salad Mizuna i gynllunio cylchdroadau cynydau – doedd dim byd yn tycio – ymgollodd y bechgyn yn llwyr mewn rhawio sglodion coed a sgwrsio ag ambell ffrind newydd!



2020 oedd Blwyddyn y Sglodion Coed

Weithiau, y pethau gorau mewn bywyd yw'r rhai lleiaf cymhleth, a dyma'r pethau sy'n rhoi'r cyfle mwyaf i ni wneud y peth pwysicaf – sgwrsio!

Roedd ein sgwrsiau yn ystod 2020 o'r radd flaenaf. Peidiwch â'm camddeall i – roedd y themâu yn amrywio o rai hynod o ddiddorol i rai oedd yn g**** llwyr – ond y pwynt yw bod y sgwrs wedi digwydd.



Rwy'n darganfod mai'r peth pwysicaf y gallaf ei wneud i redeg sied yw gwneud dim o gwbl ... heblaw gwranddo. Pan fydd rhywun yn gwranddo arnom rydym yn teimlo ein bod yn cael ein clywed, yn teimlo ein bod o werth. Felly ar gyfer 2021, rwy'n mynd i weithio ar fy sgiliau gwranddo! Cau fy ngheg, gwenu a rhawio mwy o sglodion coed!

Josh @ Summit Good,

Siediau Dynion

Vic Brown

Un o'r pethau gorau am Siediau yw'r bobl yr ydych yn cwrdd â nhw; yn ddiddorol, gwreiddiol ac ysbrydoledig. Pawb â stori i'w hadrodd!

Felly, roeddem y meddwl y gallem lunio disgrifiadau cryno o un neu ddau o'r unigolion yr ydym wedi cwrdd â nhw ac wedi gweithio gyda nhw.

Nid straeon trist am gyfnodau anodd, dim ond y diddordebau a'r llinynnau sydd wedi plethu'u bywydau at ei gilydd.



Mae Vic yn un o sylfaenwyr Sied Dynion Llanfyllin ger y Trallwng, ac yn gyn Gadeirydd, ond mae wedi cael bywyd lliwgar a hynod o ddiddorol.

Fe'i ganed yn Hampshire (neu yn Aaampshire fel y dywed Vic!). Hyfforddodd i fod yn beiriannydd yn y 60au, cyn iddo gael fan, gweithio fel gyrrwr dosbarthu nwyddau, a chael ei drwydded HGV. Arweiniodd hynny ar y cychwyn at lawer o waith o amgylch ardal y dociau yn Llundain pan oedd yn dal i fod felly! Ardal y dociau. Yna, mentrodd ymhellach i ffwrdd gyda theithiau rheolaidd i Iwerddon.



Yn anffodus, arweiniodd y gwaith trwm hwn at ambell anaf a phoenau yn ei gefn yn ogystal, a olygodd yn y pen draw ei fod wedi gadael y cerbydau HGV a hyfforddi i fod yn wneuthurwr mowldiau a gwneud cymeriadau Doctor Who a Gerry Anderson, ymhlith pethau eraill.

Ymhen ychydig, penderfynodd Vic a'i wraig werthu'r cyfan a phrynu dau fad cul gan fyw ar y camlesi a gwerthu glo, tanwydd diesel a chrefftau'r gamlas.

Yn dilyn damwain arall pan lithrodd Vic a chael ei wasgu rhwng y cwch a wal llifddorau'r gamlas, gan waethygu'r anaf i'w gefn, bu'n rhaid iddynt werthu popeth, ac ar ôl amryw o lawdriniaethau ar ei gefn, cychwynwyd busnes creu modelau cyn adleoli i Gymru lle y dysgodd ddylunio arwyddion, a brodwaith ar ddillad, cyn ymddeol.

Dyna pryd y tarwyd Vic gan drasiedi go iawn pan fu farw ei wraig Di, ei gymar annwyl ac enaid hoff cytûn, o ganlyniad i sepsis! Yn anffodus trodd hynny yn droell o iselder ac unigedd, ond a'i harweiniodd yn y pen draw at Siediau Dynion ac at fath o berthyn o'r newydd

Upcoming Events 2021

Siaradwr a Dyddiad Amser a Phwnc/Sgil ac

Brendan Wheatley
Siediau Dynion yr Opera 9 Chwefror am 11am

Mike Wright
From Y Fronts to Viagra 27 Chwefror am 11am

David Llewellyn
Hanes Cymdeithaso 9 Mawrth am 11am
Brechlynnau


Dave Edwards
Y Jig Twll Poced 23 Mawrth am 11am

Pete Anderson
Detalje – Manylion, dyna 6 Ebrill am 11am
lle mae'r Diafol

Ffaith y dydd

Yn ôl Cymdeithas Siediau Dynion Awstralia, mae ganddynt fwy o siediau yn y wlad na bwytai McDonald's.

Mae gan Awstralia 1,000 o siediau a 970 o fwytai McDonald's. Yng Nghymru, mae yna 89 o fwytai McDonald's. Rydym ar y ffordd!



Prostate Cymru

yn Meithrin Ymwybyddiaeth
ar y cyd â Siediau Dynion
Cymru.



Prostate Cymru yw'r elusen iechyd prostatad arweiniol yng Nghymru. Mae'n cefnogi dynion â chlefyd anfalaen y prostatad a chanser y prostatad. Un o brif nodau'r elusen yw meithrin ymwybyddiaeth o broblemau prostatad ledled Cymru. Mae gan yr elusen dîm ymroddedig o wirfoddolwyr sy'n teithio o gwmpas y wlad yn rhoi sgysiau i glybiau, sefydliadau a gweithleoedd, yn ogystal â mynychu digwyddiadau cymunedol.

Mae'r sgysiau rhad ac am ddim yn cwmpasu pynciau megis iechyd a llesiant dynion, clefyd anfalaen y prostatad a chanser y prostatad. Mae cyflwynwyr yr elusen yn sicrhau bod y sesiynau'n llawn gwybodaeth ond eto'n ddifyr, ac maent yn aml yn rhannu eu profiadau personol eu hunain am iechyd y prostatad.

Cafodd Prostate Cymru amser rhagorol yn ymweld â Sied Dynion Caerau ym mis Rhagfyr 2018 i feithrin ymwybyddiaeth, ac ymunodd yr elusen â Siediau Dynion Cymru mewn digwyddiad yn y Cynulliad y llynedd i ddarparu gwybodaeth a chynghor ar iechyd y prostatad. Mae'r elusen yn gobeithio gweithio'n agos gyda grwpiau Siediau Dynion ledled Cymru a dechrau sgysiau ar iechyd y prostatad. Os oes gennych ddiddordeb mewn trefnu sgwrs meithrin ymwybyddiaeth yn eich Sied Dynion, cysylltwch â thîm Prostate Cymru yn info@prostatecymru.com neu ffoniwch 02920 340029.

Opera Men's Sheds!

Mae Opera Dinas Abertawe eisiau i chi gysylltu a dweud eich hanesion wrthym, er mwyn i ni greu darn peilot ar gyfer yr opera rydyn ni'n yn ei hysgrifennu am Men's Sheds Cymru a'r gwaith gwyh y maen nhw'n ei wneud. Wel, rydyn ni wedi cwblhau'r peilot ac rydyn ni'n hapus iawn ag e!



Enw'r opera yw 'Ysgwydd yn Ysgwydd' ac mae Brendan Wheatley sydd wedi ysgrifennu'r libretto, a Caradog Williams y cyfansoddwr wedi gwneud gwaith gwyh. Gallwch ganfod rhagor a chlywed y ddau ddarn rydyn ni wedi eu cwblhau ar wefan Opera Dinas Abertawe, www.swanseaopera.com.

Cawsent eu recordio yn stiwdios Acapela ym Mhentyrch, sef capel wedi ei drawsnewid sydd ag acwsteg ragorol. Os bydd Covid yn caniatáu, rydym wedi llogi'r stiwdios i berfformio cyngerdd opera ar 11 Awst a gobeithio y bydd rhai ohonoch chi yno! I ysgrifennu'r libretto, rydyn ni wedi siarad â nifer o 'siedwyr' a chlywed rhai straeon doniol a rhai torcalonnus, gan bobl sydd wedi cael cyfnodau da a drwg ond mae pob un ohonynt wedi derbyn cryfder a chyfeillgarwch gan eu cyfeillion yn y sied-gymunedau.

Ein nod yw lledaenu'r gair am Men's Sheds ac annog mwy o bobl i ymuno, felly helpwch ni os gallwch!

Ein cam nesaf yw canfod cyllid ar gyfer y gwaith cyfan ac rydym wedi derbyn grant yn barod gan Gronfa Gymunedol y Loteri i fynd ar ymweliadau â gwahanol siediau i glywed rhagor o straeon. Wrth gwrs, mae ymweliadau byw yn anodd ar hyn o bryd oherwydd Covid, ond rydyn ni'n hapus iawn i dderbyn negeseuon e-bost neu lythyrau (mae ein manylion cysylltu ar ddiwedd yr erthygl hon) neu gael sgwrs ffôn neu Zoom/Skype.

Rydyn ni'n sylweddoli bod rhai o'ch straeon yn bersonol iawn a byddwn yn gwarantu y bydd pob stori'n ddiennw ac y bydd eich sgysiau'n cael eu trin yn hollol gyfrinachol os byddwch eisiau eu rhannu nhw gyda ni.



Ond, byddwn hefyd angen nifer o straeon cadarnhaol oherwydd rydym eisiau i'r perfformiad fod yn brofiad i godi calon y gynulleidfa a'r cyfranogwyr fel ei gilydd! Mae'n siŵr bod gennych nifer o straeon doniol i'w dweud wrthym am eich amser gyda Men's Sheds a'r cyfeillion newydd rydych chi wedi eu cael.

Brendan Wheatley a Bridgett Gill –
Cyfarwyddwyr Artistig SCO

Gwybodaeth gyffredinol

I gael rhagor o wybodaeth amdanom, gwelwch ein gwefan

www.swanseaopera.com

enquiries@swanseaopera.com

Ffôn: 01874 690254

Cyllid

Friends of the Elderly

Mae mudiad Friends of the Elderly yn darparu cymorth i bobl hŷn a effeithir gan unigrwydd, ynghyd â grantiau i'r rheiny sy'n byw ar incwm isel.

Trwy'r rhaglen Grants for Older People maent yn darparu grantiau o hyd at £400 i bobl hŷn sydd wedi cyrraedd/pasio oed pensiwn y wladwriaeth ac sydd â chynilion o lai na £4,000.

Rhaid cyflwyno ceisiadau trwy Asiant Atgyfeirio trydydd parti tebyg i elusen, awdurdod lleol neu gynrychiolydd ar ran y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Gwefan <https://www.fote.org.uk/our-charity-work/grants-2/>



Mae Sefydliad Isla yn canolbwyntio ar wasanaethu mudiadau ac unigolion ar lawr gwlad sy'n darparu cymorth hanfodol i aelodau mwyaf bregus y gymdeithas.

Trwy raglen grantiau Immediate Impact mae'r sefydliad yn cynnig grantiau o hyd at £2,000.

Gallant gwmpasu ystod eang o brosiectau sydd â'r nod o greu newidiadau cadarnhaol ym mywydau pobl ac yn eu cymunedau.

Gwefan <https://islafoundation.com/our-grants/grants-opportunities/immediate-impact-grants/>

Mae tipyn o amser wedi mynd heibio bellach ers i Sied Dynion Treorci roi'r offer garddio yn y to, ond rydym yn awyddus i weld sut y gallwn gysylltu â'n cymuned. Oes gennych unrhyw hen liniaduron neu ddyfeisiau Kindle y gallwch eu rhoi ar fenthyg i ni yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19?

A allwch helpu?



Mike o Sied LLL

Mae tipyn o amser wedi pasio ond nid yw'r gwaith wedi dod i stop, ac roeddwn am i chi wybod bod Sied 2 bellach wedi'i chwblhau. Llafur cariad yw'r disgrifiad gorau yn fy marn i, gyda'r holl gyfyngiadau symud a'r tywydd oer a gwlyb iawn yn gwneud ei orau i arafu pethau.



A ydych yn 75 oed neu'n

hŷn ac yn byw yng

Mae'r elusen genedlaethol i bobl hŷn, Re-engage, yn darparu gweithgareddau cymdeithasol i bobl hŷn ar adeg yn eu bywydau pan mae eu cylchoedd cymdeithasol yn lleihau.

Eleni, rydym yn cynnig dau weithgaredd cymdeithasol gwych, yn rhad ac am ddim, i ddynion a menywod sy'n 75 oed neu'n hŷn ac yn byw yng Nghymru:

Grwpiau Gweithgar Gyda'n Gilydd

Cyn gynted ag y bydd yn ddiogel gwneud hynny, byddwn yn lansio grwpiau newydd ledled Cymru i'ch helpu i gadw'n iach ac yn heini, ac i gwrdd â phobl newydd.



Byddwch yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau tebyg i ddawnsio, ioga ar eich eistedd, garddio, Tai Chi neu boules, a bydd digon o amser wedi hynny am luniaeth a sgwrs. Mae'r grwpiau i gyd yn cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr Re-engage a all hefyd rhoi lifft i chi i'r lleoliad a'ch gollwng adref wedi hynny.

Ein nod yw lansio'r grwpiau yn Ne Cymru cyn gynted ag y bydd y llywodraeth yn dweud ei bod yn ddiogel gwneud hynny, a byddwn yn agor rhagor ledled Cymru yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Bydd pob un o'r grwpiau yn cadw at ganllawiau cyfredol y llywodraeth, a rhoddir mesurau ar waith i sicrhau eich diogelwch.

Cynllun Sgwrsio â Chydymaith

Rydym yn gwybod y gall sgwrs dda olygu'r byd, yn enwedig yn ystod yr argyfwng cyfredol. Dyma pam yr ydym wedi sefydlu gwasanaeth ffonio cydymaith yn rhad ac am ddim i bobl hŷn sy'n byw ar eu pen eu hunain.

Gallwch fwynhau sgwrs reolaidd ag un o'n gwirfoddolwyr cyfeillgar, a byddwn hyd yn oed yn gwneud ein gorau i'ch paru â rhywun y mae gennych lawer yn gyffredin ag ef.

Beth bynnag yw thema eich sgwrs, bydd yn helpu i godi'ch calon; yn gwneud i chi deimlo'n gyfan eto ac yn fwy cysylltiedig â'r byd.



Gwybodaeth

Gyffredinol

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech wybod mwy, cysylltwch â:

Gavin 02922 801 802 neu Gavin.stewart@reengage.org.uk

Beth 02922 790 147 neu Bethan.nesham@reengage.org.uk

Brechlynnau

Dyma olwg gyflym ar Frechlynnau gyda'n heiriolwyr Tony a Pete

Brechlynnau a golau ym mhen draw'r twnnel hir iawn!

Mae 2021 yn edrych yn fwy addawol ac mae'r newyddion da am argaeledd a chyflwyno'r brechlynnau i fynd i'r afael â phandemig COVID-19 yn parhau.

Fodd bynnag, bu llawer o ddryswch ar adegau gyda negeseuon a chanllawiau/deddfwriaeth y llywodraethau datganoledig a Llywodraeth y DU, felly hoffem eich atgoffa i gymryd yr wybodaeth ddiweddaraf o wefannau Iechyd Cyhoeddus Cymru (icc.gig.cymru) a Llywodraeth Cymru (llyw.cymru).



Wrth i mi ysgrifennu'r erthygl hon, mae mwy na 500,000 o bobl yng Nghymru wedi'u brechu, gyda'r nod o gynnig y brechlyn cyntaf i bob oedolyn yng Nghymru sydd dros 50 oed erbyn y gwanwyn.

Gwyddom fod nifer fach yn gyndyn o gael y brechlyn, a dewis yr unigolyn yw hynny – fodd bynnag, os byddwch yn gwrthod y brechlyn i ddechrau ac yn newid eich meddwl yn ddiweddarach, byddwch yn dal i allu mynd a gofyn am gael eich brechu. Cofiwch, hyd yn oed ar ôl cael y brechlyn, mae'n rhaid i chi gadw at y canllawiau/deddfwriaeth sydd mewn grym ar y pryd.



mae'r 'arferol' newydd yn debygol o barhau...

Wel – mae'r 'arferol' newydd yn debygol o barhau i esblygu am beth amser eto, ond rydym wedi gweld rhai manteision o gadw mewn cysylltiad rhithwir, gyda nifer ohonom yn dysgu sgiliau newydd ar gyfer yr oes ddigidol hon. Er ei fod yn frawychus i rai, mae nifer wedi meddwl pam nad oeddent wedi mynd ati'n gynharach i gael eu cynnwys yn ddigidol i raddau mwy. Felly, dyma nodyn arall i'ch atgoffa – Rydym yn edrych ymlaen at ailafael yn ein cyswllt wyneb yn wyneb yn fuan, ond yn y cyfamser gellir trefnu gwasanaeth eirioli Siediau Dynion Cymru a'n galwadau cyfeillio trwy alwadau ffôn, neu alwadau fideo pe bai'n well gennych weld ein hwynebaw hawddgar!

WhatsApp? Skype? Zoom? Nid clustiau i wrando sydd gennym yn uni



Bygythiadau Seiber

gan Tony Wan

Pan oeddwn yn blentyn, rwy'n cofio'r Cybermen ofnadwy yn ymosod arnom a'r hen Ddoctor da yn ein hamddiffyn (Tom Baker oedd fy Noctor i!).


'Nawr, mae Bygythiadau Seiber yn ymosod arnom – daw'r oes ddigidol hon â datblygiadau technolegol gwych yn ei sgil, ond daw hefyd ag ambell weithgaredd amheus y mae angen i ni fod yn ymwybodol ohono – ond gallwch gadw'ch hunain yn ddiogel hyd yn oed heb y Doctor.



Yn ystod pandemig COVID-19 mae twyllwyr wedi bod yn manteisio ar y bobl hynny sy'n fregus neu ddim yn rhy gyfarwydd â thechnoleg, gyda galwadau, negeseuon testun a negeseuon e-bost twyllodrus yn honni eu bod gan gyrff tebyg i Gyllid a Thollau ei Mawrhydi, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, gwasanaeth Profi ac Orlhain y GIG, gwefannau siopa ar-lein poblogaidd, a sefydliadau ariannol adnabyddus.

Mae dulliau poblogaidd o dwyllo yn cynnwys galwadau sy'n honni eu bod gan BT yn awgrymu bod problemau gyda'ch wi-fi ac yn gofyn i chi fewngofnodi a chaniatáu i'r galwr gael mynediad i'ch cyfrifiadur i geisio dwyn data a chyfrineiriau; galwadau sy'n honni eu bod gan Amazon yn adnewyddu eich tanysgrifiad yn awtomatig, er efallai nad oes gennych danysgrifiad, ac yn gofyn i chi wasgu rhif ar fyselbad y ffôn i beidio â bwrw ymlaen â'r adnewyddiad, sy'n codi ffi galwad breimiwm arnoch; negeseuon e-bost sy'n gofyn i chi glicio ar ddolen sy'n arwain at wefannau ffug, neu'n lawrlwytho meddalwedd faleisus i'ch dyfais.

Enghraifft arall o dwyll yw gordalu â siec lle mae twyllwr yn cyflwyno siec, a hynny yn annisgwyl, neu'n talu swm uwch na'r hyn sy'n ddyledus am nwyddau neu wasanaethau, ac yna'n gofyn i'r gordaliad gael ei ad-dalu iddo ar unwaith, a darganfod yn ddiweddarach bod y siec a gyflwynwyd yn un ffug, gan adael y dioddefwr yn waeth ei fyd yn ariannol. Cefais brofiad o'r fath wrth werthu fy ngharafán rhai blynyddoedd yn ôl a chael neges e-bost yn cynnig anfon siec ataf ar unwaith am y pris gofyn llawn. Roedd hynny yn codi amheuan yn syth gan nad oedd yr unigolyn hyd yn oed wedi cynnig dod i weld fy ngharafán, ac roedd y gramadeg yn wael iawn (ar y pryd roedd llawer o sgamiau yn deillio o dramor). Anwybyddais nifer o ymdrechion i'm denu, hyd yn oed gyda chynnig i dalu mwy na'r pris gofyn!



Peidiwch byth â rhoi eich manylion personol na'ch manylion banc i unrhyw un heb gadarnhau yn gyntaf pwy sy'n cysylltu â chi – gallwch gysylltu â sefydliad sy'n ddilys trwy ddefnyddio rhif ffôn neu gyfeiriad e-bost sy'n hysbys. Cofiwch – os ydych yn ansicr, ceisiwch gyngor, ac os yw bargaen yn edrych yn rhy dda i fod yn wir, mae'n debyg ei bod.

I gael rhagor o wybodaeth a chyngor, ewch i www.actionfraud.police.uk

Pont Gludo Casnewydd

Saif y Bont Gludo yn rhan falch o dirlun Casnewydd. Fe'i hgorwyd yn 1906 yn adeiladwaith â nerth Hercules a gosgeiddigrwydd Apollo

Porth gweladwy i orffennol diwydiannol y ddinas. Mae'n ysgogi atgofion, ymdeimlad o hiraeth a balchder dinesig i bobl leol gael tirnod mor brin ac eiconig ar stepen y drws.

Fferi grog yw'r bont a gynlluniwyd gan Ferdinand Arnodin. Diystyrwyd dewisiadau eraill tebyg i bont droi, isffordd a gwasanaeth fferi gan beiriannydd y fwrdeistref Robert Haynes ar sail y gost a'r tresmasu ar y llwybrau môr a arweiniai i'r dociau prysur. Cymerodd yr adeiladwaith bedair blynedd i'w gwblhau ar gost o £98,000.




Defnyddiwyd y Bont Gludo yn llwybr cymudo dyddiol i'r rheiny a oedd yn teithio o'u cartrefi yn y Gorllewin i'w gwaith yn y Dwyrain, gyda gwaith dur Lysaghts yn un o'r cyflogwyr mwyaf ar y pryd.

Wrth i bontydd eraill megis Pont George Street a Phont y Ddinas agor ledled Casnewydd, gostyngodd y traffig a oedd yn defnyddio'r Bont Gludo yn sylweddol ac, yn 2012, fe'i trosglwyddwyd i'r Gwasanaeth Amgueddfeydd a Threftadaeth i fod yn atyniad i dwristiaid.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi cael £8.75 miliwn gan Gronfa Treftadaeth y

Loteri Genedlaethol. Bydd yr arian hwn yn ein galluogi i wneud gwaith adfer helaeth ar y bont ac adeiladu canolfan ymwelwyr newydd. Mae'n gyflawniad aruthrol, a bydd yn sicrhau bod yr adeiladwaith eiconig hwn yn cael ei gadw, gan aros yn weithredol i genedlaethau'r dyfodol.



Er y bydd y safle 'nawr ynghau i'r cyhoedd tan Wanwyn 2023 bydd yna ddigon o gyfleoedd i gymryd rhan a chael yr wybodaeth ddiweddaraf. Byddem wrth ein bodd yn clywed eich straeon am y bont a gweld eich lluniau ohoni. Dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol @NpTBRidge neu anfonwch neges e-bost at emma.newrick@newport.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth.



**MEN'S
SHEDS** CYMRU

Ymunwch y clwb!

Mae yna lawer o resymau i ymuno â Siediau Dynion

- ✓ Byddwch ymhlith y cyntaf i gael yr wybodaeth
- ✓ Cymerwch ran weithredol yn y mudiad yng Nghymru
- ✓ Mynnwch fag nwyddau Siediau

Mae ymuno yn hawdd

Yn syml, anfonwch neges e-bost at info@mensshedscymru.co.uk gyda'ch enw a'ch cyfeiriad llawn, neu ysgrifennwch atom yn y cyfeiriad hwn: Siediau Dynion Cymru, c/o Hafan CymruCaerfyrddin, SA31 2BG.

 **Hafan**
Cymru



the **waterloo** foundation*



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

  @mensshedscymru

www.mensshedscymru.co.uk

www.hafancymru.co.uk

Men's Sheds Cymru, Hafan Cymru
Head Office, Stephen's Way, Pensarn,
Camarthen, SA31 2BG

Telephone: 01267 225555